



---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

---

WELSH STATUTORY  
INSTRUMENTS

---

**2009 Rhif 1385 (Cy.141)**

**2009 No. 1385 (W.141)**

**Y GWASANAETH IECHYD  
GWLADOL, CYMRU**

**NATIONAL HEALTH  
SERVICE, WALES**

Rheoliadau Ymddiriedolaeth  
Gwasanaeth Iechyd Gwladol  
Iechyd Cyhoeddus Cymru  
(Aelodaeth a Gweithdrefn) 2009

The Public Health Wales National  
Health Service Trust (Membership  
and Procedure) Regulations  
2009

**NODYN ESBONIADOL**

**EXPLANATORY NOTE**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

*(This note is not part of the Regulations)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer Aelodaeth a Gweithdrefnau Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru ("yr Ymddiriedolaeth").

These Regulations make provision for the Membership and Procedures of the Public Health Wales National Health Service Trust ("the Trust").

Mae Rhan 2 y Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth—

Part 2 of these Regulations make provisions—

(a) ar gyfer mwyafswm nifer y cyfarwyddwyr (rheoliad 2);

(a) for the maximum number of directors (regulation 2);

(b) ar gyfer penodi ac ailbenodi y cyfarwyddwyr (rheoliadau 3 a 14 ac Atodlen 1);

(b) for the appointment and reappointment of directors (regulations 3 and 14 and Schedule 1);

(c) mewn perthynas â chyfansoddiad ac aelodaeth yr Ymddiriedolaeth (rheoliadau 4 i 7);

(c) in relation to the composition and membership of the Trust (regulations 4 to 7);

(ch) mewn perthynas â deiliadaeth swydd y cyfarwyddwyr a'u hatal dros dro, terfynu deiliadaeth a datgymhwyso rhag penodi cyfarwyddwyr penodol (rheoliadau 8 i 15).

(d) in relation to tenure of office, termination of appointment and suspension of directors, and the disqualification for appointment (regulations 8 to 15).

Mae Rhan 3 yn cynnwys darpariaethau mewn perthynas â throdion yr Ymddiriedolaeth gan gynnwys penodi'r is-gadeirydd, penodi pwyllgorau a gweithdrefnau ar gyfer cyfarfodydd.

Part 3 contains provisions in relation to proceedings of the Trust including the appointment of a vice-chair, appointment of committees and procedures for meetings.

Mae Rhan 4 yn nodi trefniadau trosiannol rhwng dyddiad sefydlu a dyddiad gweithredol yr Ymddiriedolaeth ac yn gwneud diwygiadau canlyniadol penodol.

Part 4 sets out transitional arrangements between the establishment date and operational date of the Trust and makes certain consequential amendments.

Mae asesiad effaith rheoleiddiol wedi'i baratoi mewn cysylltiad â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

A regulatory impact assessment has been prepared in connection with these Regulations. A copy can be obtained from the Welsh Assembly Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

**2009 Rhif 1385 (Cy.141)**

**2009 No. 1385 (W.141)**

**Y GWASANAETH IECHYD  
GWLADOL, CYMRU**

**NATIONAL HEALTH  
SERVICE, WALES**

Rheoliadau Ymddiriedolaeth  
Gwasanaeth Iechyd Gwladol  
Iechyd Cyhoeddus Cymru  
(Aelodaeth a Gweithdrefn) 2009

The Public Health Wales National  
Health Service Trust (Membership  
and Procedure) Regulations  
2009

*Gwnaed* 9 Mehefin 2009

*Made* 9 June 2009

*Gosodwyd gerbron Cynulliad  
Cenedlaethol Cymru* 9 Mehefin 2009

*Laid before the National  
Assembly for Wales* 9 June 2009

*Yn dod i rym* 1 Awst 2009

*Coming into force* 1 August 2009

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(1) a pharagraff 4 o Atodlen 3 iddi.

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred on them by sections 203(9) and (10) of and paragraph 4 of Schedule 3 to the National Health Service (Wales) Act 2006(1).

**RHAN 1**

**PART I**

**Cyffredinol**

**General**

**Enwi, cychwyn a dehongli**

**Citation, commencement and interpretation**

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru (Aelodaeth a Gweithdrefn) 2009 a deuant i rym ar 1 Awst 2009.

1.—(1) The title of these Regulations is the Public Health Wales National Health Service Trust (Membership and Procedure) Regulations 2009 and come into force on 1 August 2009.

(2) Yn y Rheoliadau hyn, onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall—

(2) In these Regulations, unless the context otherwise requires—

ystyr "corff gwasanaeth iechyd" ("*health service body*") yw—

"the Act" ("*y Ddeddf*") means the National Health Service (Wales) Act 2006;

(a) Awdurdod Iechyd Strategol, Awdurdod Iechyd Arbennig, Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol, ymddiriedolaeth GIG, ymddiriedolaeth sefydledig GIG, Bwrdd Iechyd Lleol neu gorff Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus (GIC) fel y'i diffinnir yn adran 139(6) o Ddeddf y

"appointee" ("*penodai*") means the chair or a non-executive director of the Trust;

"director" ("*cyfarwyddwr*") in relation to the Trust includes its chair;

Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006(1) ac adran 97(6) o'r Ddeddf, neu contractwr sy'n cael ei drin fel corff gwasanaeth iechyd yn unol â rheoliad 10 o Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol Lleol etc) 2006(2);

- (b) Bwrdd Iechyd, Bwrdd Iechyd Arbennig neu'r Asiantaeth Gwasanaethau Cyffredin ar gyfer Gwasanaeth Iechyd yr Alban, a gyfansoddwyd yn y drefn hon o dan adrannau 2, 10 a 12A o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Yr Alban) 1978(3);
- (c) Bwrdd Ymarfer Deintyddol yr Alban a gyfansoddwyd gan Reoliadau sy'n cael effaith o dan adran 4 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Yr Alban) 1978
- (ch) Rheoleiddiwr Annibynnol Ymddiriedolaethau Sefydledig GIG;

mae "cyfarwyddwr" ("*director*") mewn perthynas â'r Ymddiriedolaeth yn cynnwys ei chadeirydd;

mae i "cyfarwyddwr gweithredol" yr ystyr a roddir i "executive director" ac i "cyfarwyddwr anweithredol" yr ystyr a roddir i "non-executive director" ym mharagraff 3(3) o Atodlen 3 i'r Ddeddf;

mae i "dyddiad gweithredol" yr ystyr a roddir i "operational date" ym mharagraff 5(5) o Atodlen 3 i'r Ddeddf;

ystyr "dyddiad sefydlu" ("*establishment date*") yw 1 Awst 2009;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006;

ystyr "penodai" ("*appointee*") yw cadeirydd yr Ymddiriedolaeth neu gyfarwyddwr anweithredol iddi;

ystyr "y pwyllgor perthnasol" ("*the relevant committee*") yw pwyllgor ymddiriedolaeth GIG a benodwyd o dan naill ai rheoliad 21 neu reoliad 22 pa un bynnag yw'r un priodol;

ystyr "Rheoleiddiwr Annibynnol Ymddiriedolaethau Sefydledig GIG" ("*Independent Regulator of NHS Foundation Trusts*") yw'r corff corfforaethol y mae adran 31(1) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006 yn parhau ei fodolaeth;

ystyr "Rheoliadau 1990" ("*the 1990 Regulations*") yw Rheoliadau Ymddiriedolaethau Gwasanaeth

"establishment date" ("*dyddiad sefydlu*") means 1 August 2009;

"executive director" ("*cyfarwyddwr gweithredol*") and "non-executive director" ("*cyfarwyddwr anweithredol*") have the meaning assigned to them in paragraph 3(3) of Schedule 3 to the Act;

"health service body" ("*corff gwasanaeth iechyd*") means—

- (a) a Strategic Health Authority, a Special Health Authority, a Primary Care Trust, an NHS trust, an NHS foundation trust, a Local Health Board or a PHS body as defined in section 139(6) of the National Health Service Act 2006 (1) and section 97(6) of the Act or a contractor which is treated as a health service body pursuant to regulation 10 of the National Health Service (Local Pharmaceutical Services etc) Regulations 2006(2);
- (b) a Health Board, a Special Health Board or the Common Services Agency for the Scottish Health Service, respectively constituted under section 2, 10 and 12A of the National Health Service (Scotland) Act 1978(3);
- (c) the Scottish Dental Practice Board constituted by Regulations having effect under section 4 of the National Health Service (Scotland) Act 1978;
- (d) the Independent Regulator of NHS Foundation Trusts;

"Independent Regulator of NHS Foundation Trusts" ("*Rheoleiddiwr Annibynnol Ymddiriedolaethau Sefydledig GIG*") means the body corporate continued in existence by section 31(1) of the National Health Service Act 2006;

"operational date" ("*dyddiad gweithredol*") has the meaning assigned to it in paragraph 5(5) of Schedule 3 to the Act;

"the 1990 Regulations" ("*Rheoliadau 1990*") means the National Health Service Trusts (Membership and Procedure) Regulations 1990(4)

"the relevant committee" ("*y pwyllgor perthnasol*") means a committee of an NHS trust appointed under either regulation 21 or regulation 22 whichever is appropriate;

"the Trust" ("*yr Ymddiriedolaeth*") means the Public Health Wales National Health Service Trust established by the Public Health Wales National

---

(1) 2006 p. 41.

(2) O.S. 2006/552.

(3) 1978 p.29.

---

(1) 2006 c. 41.

(2) S.I. 2006/552.

(3) 1978 c.29.

(4) S.I. 1990/2024.

Iechyd Gwladol (Aelodaeth a Gweithdrefn) 1990(1);

mae i "undeb llafur" yr ystyr a roddir i "trade union" yn adran 1 o Ddeddf Undebau Llafur a Chysylltiadau Cyflogaeth (Cydgrynhoi) 1992(2);

ystyr "yr Ymddiriedolaeth" ("*the Trust*") yw Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru a sefydlwyd gan Orchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru (Sefydlu) 2009(3).

(3) Yn rheoliad 24—

mae "corff cyhoeddus" ("*public body*") yn cynnwys—

- (a) unrhyw gorff a sefydlwyd at ddibenion ymgymryd, o dan berchenogaeth genedlaethol, ag unrhyw ddiwydiant neu ran o unrhyw ddiwydiant neu ymgymeriad; a
- (b) corff llywodraethu unrhyw brifysgol, coleg prifysgol neu goleg, ysgol neu neuadd prifysgol;

ystyr "cyfranddaliadau" ("*shares*") yw cyfranddaliadau yng nghyfalaf cyfranddaliadau cwmni neu gorff arall neu yn stoc cwmni neu gorff arall;

ystyr "gwarannau" ("*securities*") yw—

- (a) cyfranddaliadau neu ddyledebau, p'un ai arwystl ar asedau'r cwmni neu gorff arall ydynt ai peidio, neu hawliau neu fuddiannau mewn unrhyw gyfranddaliadau neu mewn unrhyw ddyledebau o'r fath, neu
- (b) hawliau (boed gwir neu amodol) mewn cysylltiad ag arian a roddwyd ar fenthg i neu a adneuwyd mewn unrhyw gymdeithas ddiwydiannol a darbodus neu gymdeithas adeiladu.

(4) Onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall, mae unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau hyn at reoliad â rhif yn gyfeiriad at y rheoliad sy'n dwyn rhif hwnnw yn y Rheoliadau hyn, ac mae unrhyw gyfeiriad mewn rheoliad at baragraff â rhif yn gyfeiriad at y paragraff sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y rheoliad hwnnw.

Health Service Trust (Establishment) Order 2009(1);

"trade union" ("*undeb llafur*") has the meaning assigned to it in section 1 of the Trade Union and Labour Relations (Consolidation) Act 1992(2).

(3) In regulation 24—

"public body" ("*corff cyhoeddus*") includes—

- (a) any body established for the purposes of carrying on, under national ownership, any industry or part of any industry or undertaking; and
- (b) the governing body of any university, university college or college, school or hall of a university;

"securities" ("*gwarannau*") means—

- (a) shares or debentures, whether constituting a charge on the assets of the company or other body or not, or rights or interests in any shares or such debentures, or
- (b) rights (whether actual or contingent) in respect of money lent to or deposited with any industrial and provident society or building society;

"shares" ("*cyfranddaliadau*") means shares in the share capital of a company or other body or the stock of a company or other body.

(4) Unless the context otherwise requires, any reference in these Regulations to a numbered regulation is a reference to the regulation bearing that number in these Regulations, and any reference in a regulation to a numbered paragraph is a reference to the paragraph bearing that number in that regulation.

---

(1) O.S. 1990/2024.

(2) 1992 p. 52.

(3) O.S. 2009/2058 (Cy.177).

---

(1) S.I. 2009/2058 (W.177).

(2) 1992 c.52.

## RHAN II

### Aelodaeth

#### Mwyafswm nifer y cyfarwyddwyr

2.—(1) Mwyafswm nifer cyfarwyddwyr yr Ymddiriedolaeth fydd 11 heb gynnwys y cadeirydd.

(2) Ni chaniateir i'r Ymddiriedolaeth gael mwy na 6 chyfarwyddwyr anweithredol (heb gynnwys y cadeirydd), a dim mwy na 5 cyfarwyddwyr gweithredol.

#### Penodi cyfarwyddwyr

3.—(1) Bydd cyfarwyddwyr anweithredol yr Ymddiriedolaeth yn cael eu penodi gan Weinidogion Cymru yn unol â darpariaethau Atodlen 1.

(2) Bydd y cyfarwyddwyr gweithredol yn cael eu penodi gan y pwyllgor perthnasol.

#### Cyfarwyddwyr Gweithredol

4. Cyfarwyddwyr gweithredol yr Ymddiriedolaeth fydd—

- (a) y prif swyddog;
- (b) y prif swyddog cyllid;
- (c) tri chyfarwyddwr arall a benodir gan yr Ymddiriedolaeth.

#### Cyfarwyddwyr Anweithredol

5.—(1) Bydd cyfarwyddwyr anweithredol yr Ymddiriedolaeth yn cynnwys—

- (a) person a enwebir gan prifysgol yng Nghymru a chanddi arbenigedd addysgu neu ymchwilio ym maes iechyd cyhoeddus;
- (b) person a enwebir gan awdurdod lleol neu awdurdodau lleol yng Nghymru;
- (c) person sy'n un o gyflogeion neu'n un o aelodau corff sector gwirfoddol yng Nghymru;
- (ch) person sy'n swyddog undeb llafur neu gorff arall sy'n cynrychioli cyflogeion ac sy'n cynrychioli staff yr Ymddiriedolaeth.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru benderfynu ar yr awdurdod lleol neu'r awdurdodau lleol sy'n enwebu at ddibenion rheoliad 5(1)(b).

#### Personau i'w hystyried yn gyfarwyddwyr gweithredol

6.—(1) Mae person nad yw'n un o gyflogeion yr Ymddiriedolaeth—

- (a) ond sy'n ddeiliad swydd mewn prifysgol a chanddi ysgol feddygol neu ddeintyddol, ac sydd hefyd yn gweithio i'r Ymddiriedolaeth; neu

## PART II

### Membership

#### Maximum number of directors

2.—(1) The maximum number of directors of the Trust will be 11 excluding the chair.

(2) The Trust may have no more than 6 non-executive directors (excluding the chair), and no more than 5 executive directors.

#### Appointment of directors

3.—(1) The non-executive directors of the Trust will be appointed by the Welsh Ministers in accordance with the provisions of Schedule 1.

(2) The executive directors will be appointed by the relevant committee.

#### Executive Directors

4. The executive directors of the Trust will be—

- (a) the chief officer;
- (b) the chief finance officer;
- (c) three other directors appointed by the Trust.

#### Non-Executive Directors

5.—(1) The non-executive directors of the Trust will include—

- (a) a person nominated by a university in Wales with teaching or research specialism in public health;
- (b) a person nominated by a local authority or local authorities in Wales;
- (c) a person who is an employee or member of a voluntary sector organisation in Wales;
- (d) a person who is an officer of a trade union or other employee representative body representing staff of the Trust.

(2) The Welsh Ministers may determine the nominating local authority or local authorities for the purposes of regulation 5(1)(b).

#### Persons to be regarded as executive directors

6.—(1) A person who is not an employee of the Trust but who—

- (a) holds a post in a university with a medical or dental school, and also works for the Trust; or

(b) ond sydd ar secondiad gan ei gyflogwyr er mwyn iddo weithio i'r Ymddiriedolaeth;

er gwaethaf hynny, i'w ystyried, ar ei benodiad yn gyfarwyddwr, yn gyfarwyddwr gweithredol i'r Ymddiriedolaeth a benodwyd o dan reoliad 4(c) yn hytrach nag yn gyfarwyddwr anweithredol i'r Ymddiriedolaeth.

(2) Nid yw paragraff (1) yn gymwys i'r cyfarwyddwr anweithredol y cyfeirir ato ym mharagraff (a) o reoliad 5(1).

### **Cyfarwyddwyr ar y cyd**

7. Os caiff mwy nag un person eu penodi ar y cyd i swydd yn yr Ymddiriedolaeth sy'n gwneud y deiliad yn gymwys i fod yn gyfarwyddwr gweithredol neu y mae cyfarwyddwr gweithredol i'w benodi mewn perthynas â hi, bydd y personau hynny'n dod neu'n cael eu penodi yn gyfarwyddwr gweithredol ar y cyd, ac fe'u cyfrifir fel un person at ddibenion rheoliad 2.

### **Deiliadaeth swydd cadeirydd a chyfarwyddwyr**

8.—(1) Yn ddarostyngedig i reoliad 10, penodir cadeirydd yr Ymddiriedolaeth a chyfarwyddwyr anweithredol iddi am y cyfryw gyfnod, nad yw'n fwy na phedair blynedd, ag y byddo Gweinidogion Cymru'n ei bennu wrth iddynt wneud y penodiad.

(2) Yn ddarostyngedig i reoliad 9, bydd deiliadaeth swydd cyfarwyddwyr gweithredol, ac eithrio'r prif swyddog a'r prif swyddog cyllid, yn para am y cyfryw gyfnod ag y byddo'r pwyllgor perthnasol yn ei bennu wrth iddo wneud y penodiad.

### **Deiliadaeth swydd ac atal deiliadaeth swydd cyfarwyddwyr gweithredol**

9.—(1) Yn ddarostyngedig i reoliad 8(2), bydd cyfarwyddwr gweithredol i'r Ymddiriedolaeth yn ddeiliad swydd—

- (a) os nad y cyfarwyddwr hwnnw yw'r prif swyddog neu'r prif swyddog cyllid, cyhyd ag y bydd yn ddeiliad swydd yn yr Ymddiriedolaeth;
- (b) os y prif swyddog neu'r prif swyddog cyllid yw'r cyfarwyddwr hwnnw, cyhyd ag y bydd yn ddeiliad y swydd honno yn yr Ymddiriedolaeth.

(2) Os bydd y pwyllgor perthnasol o'r farn nad yw'n llesol i fuddiannau'r Ymddiriedolaeth fod cyfarwyddwr gweithredol i'r Ymddiriedolaeth ac eithrio'r prif swyddog neu'r prif swyddog cyllid yn parhau i fod yn ddeiliad swydd cyfarwyddwr bydd y pwyllgor perthnasol yn terfynu ei ddeiliadaeth swydd ar unwaith.

(3) Os bydd cyfarwyddwr gweithredol i'r Ymddiriedolaeth yn cael ei atal o'i swydd yn yr

(b) is seconded from his or her employers to work for the Trust;

is nevertheless, on appointment as a director, to be regarded as an executive director of the Trust appointed under regulation 4(c) rather than a non-executive director of the Trust.

(2) Paragraph (1) does not apply to the non-executive director referred to in paragraph (a) of regulation 5(1).

### **Joint directors**

7. Where more than one person is appointed jointly to a post in the Trust which qualifies the holder for executive directorship or in relation to which an executive director is to be appointed, those persons will become or be appointed an executive director jointly, and will count for the purposes of regulation 2 as one person.

### **Tenure of office of chair and directors**

8.—(1) Subject to regulation 10, the chair and non-executive directors of the Trust are appointed for such period not exceeding four years as the Welsh Ministers may specify on making the appointment.

(2) Subject to regulation 9, the tenure of office of executive directors, other than the chief officer and chief finance officer, will be for such period as the relevant committee may specify on making the appointment.

### **Tenure and suspension of tenure of office of executive directors**

9.—(1) Subject to regulation 8(2), an executive director of the Trust will hold office—

- (a) if that director is not the chief officer or the chief finance officer, for as long as he or she holds a post in the Trust;
- (b) if that director is the chief officer or the chief finance officer, for as long as he or she holds that post in the Trust.

(2) If the relevant committee is of the opinion that it is not in the interests of the Trust that an executive director of the Trust other than the chief officer or chief finance officer should continue to hold office as director the relevant committee will immediately terminate his or her tenure of office.

(3) If an executive director of the Trust is suspended from his or her post in the Trust that director will be

Ymddiriedolaeth bydd y cyfarwyddwr hwnnw'n cael ei atal rhag cyflawni ei swyddogaethau cyfarwyddwr am y cyfnod y bydd wedi ei atal.

(4) Caiff cyfarwyddwr gweithredol ac eithrio prif swyddog neu brif swyddog cyllid yr Ymddiriedolaeth ymddiswyddo o'i swydd ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod y cafodd ei benodi i'w weithio drwy gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i'r pwyllgor perthnasol.

### **Terfynu deiliadaeth swydd cadeirydd a chyfarwyddwyr anweithredol**

**10.**—(1) Caiff cadeirydd yr Ymddiriedolaeth neu gyfarwyddwr anweithredol iddi ymddiswyddo ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod y penodwyd ef i'w weithio drwy gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i Weinidogion Cymru.

(2) Os bydd cyfarwyddwr anweithredol i'r Ymddiriedolaeth, yn ystod y cyfnod y bydd yn gyfarwyddwr, yn cael ei benodi'n gadeirydd yr Ymddiriedolaeth, bydd ei ddeiliadaeth o swydd cyfarwyddwr anweithredol yn dod i ben pan fydd ei benodiad i swydd cadeirydd yn dod yn effeithiol.

(3) Os bydd Gweinidogion Cymru o'r farn nad yw'n llesol i fuddiannau'r gwasanaeth iechyd i berson a gafodd ei benodi'n gadeirydd yr Ymddiriedolaeth neu'n gyfarwyddwr anweithredol iddi barhau i fod yn ddeiliad y swydd honno, caiff Gweinidogion Cymru derfynu deiliadaeth swydd y person hwnnw ar unwaith.

(4) Os nad yw cadeirydd yr Ymddiriedolaeth neu gyfarwyddwr anweithredol iddi wedi mynychu cyfarfod o'r Ymddiriedolaeth am gyfnod o chwe mis bydd Gweinidogion Cymru'n terfynu ei ddeiliadaeth swydd ar unwaith onid yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni—

- (a) bod achos rhesymol dros yr absenoldeb; a
- (b) y bydd y cadeirydd neu'r cyfarwyddwr anweithredol yn gallu mynychu cyfarfodydd o'r Ymddiriedolaeth o fewn y cyfryw gyfnod ag y mae Gweinidogion Cymru yn ei ystyried yn rhesymol.

(5) Os cafodd person ei benodi'n gadeirydd yr Ymddiriedolaeth neu'n gyfarwyddwr anweithredol iddi—

- (a) os datgymhwysir y person hwnnw rhag cael ei benodi o dan reoliad 15 bydd Gweinidogion Cymru'n ysgrifennu ato ar unwaith i'w hysbysu ei fod wedi ei ddatgymhwyso; neu
- (b) os daw i sylw Gweinidogion Cymru fod y person wedi'i ddatgymhwyso felly pan gafodd ei benodi, byddant yn datgan ar eu hunion na chafodd y person ei benodi'n briodol ac yn ysgrifennu at y person hwnnw i'w hysbysu o hynny,

a, phan ddaw'r hysbysiad hwnnw i law, bydd

suspended from performing his or her functions as director for the period of his or her suspension.

(4) An executive director other than the chief officer or chief finance officer of the Trust may resign his or her office at any time during the period for which he or she was appointed by giving notice in writing to the relevant committee.

### **Termination of tenure of office of chair and non-executive directors**

**10.**—(1) The chair or a non-executive director of the Trust may resign his or her office at any time during the period for which he or she was appointed by giving notice in writing to the Welsh Ministers.

(2) Where during his or her period of directorship a non-executive director of the Trust is appointed chair of the Trust, his or her tenure of office as non-executive director will terminate when his or her appointment as chair takes effect.

(3) If the Welsh Ministers are of the opinion that it is not in the interests of the health service for a person appointed as a chair or non-executive director of the Trust to continue to hold that office, the Welsh Ministers may immediately terminate that person's tenure of office.

(4) If a chair or non-executive director of the Trust has not attended a meeting of the Trust for a period of six months the Welsh Ministers will immediately terminate his or her tenure of office unless the Welsh Ministers are satisfied that—

- (a) the absence was due to a reasonable cause; and
- (b) the chair or non-executive director will be able to attend meetings of the Trust within such period as the Welsh Ministers consider reasonable.

(5) Where a person has been appointed the chair or non-executive director of the Trust—

- (a) if that person becomes disqualified for appointment under regulation 15 the Welsh Ministers will immediately notify him or her in writing of such disqualification; or
- (b) if it comes to the notice of the Welsh Ministers that at the time of that person's appointment he or she was so disqualified, they will immediately declare that the person was not duly appointed and so notify him or her in writing,

and upon receipt of any such notification, his or her

deiliadaeth swydd y person hwnnw, os oes un, yn cael ei therfynu a bydd y person hwnnw'n peidio â gweithredu fel cadeirydd neu gyfarwyddwr anweithredol.

(6) Rhaid i berson a benodir yn gadeirydd yr Ymddiriedolaeth neu'n gyfarwyddwr anweithredol iddi hysbysu'r Ymddiriedolaeth ar unwaith os datgymhwysir y person hwnnw rhag cael ei benodi o dan reoliad 15.

(7) Os ymddengys i Weinidogion Cymru fod cadeirydd yr Ymddiriedolaeth neu gyfarwyddwr anweithredol iddi wedi methu â chydymffurfio â rheoliad 24 (datgelu etc o ran buddiant ariannol) cânt derfynu deiliadaeth swydd y person hwnnw ar unwaith.

(8) Os bydd unrhyw un o'r cyfarwyddwyr anweithredol y cyfeirir yn y drefn isod atynt—

- (a) ym mharagraff (c) o reoliad 5(1) yn peidio â bod yn un o aelodau neu o gyflogeion corff gwirfoddol yng Nghymru;
- (b) ym mharagraff (ch) o reoliad 5(1) yn peidio â bod yn swyddog i'r undeb llafur neu'r corff sy'n cynrychioli cyflogeion

bydd Gweinidogion Cymru'n terfynu ei benodiad yn gyfarwyddwr anweithredol.

#### **Atal cadeirydd a chyfarwyddwyr anweithredol o'u swyddi**

**11.—(1)** Caiff Gweinidogion Cymru atal penodai rhag cyflawni swyddogaethau'r penodai fel cadeirydd neu gyfarwyddwr tra bydd Gweinidogion Cymru'n ystyried—

- (a) p'un ai i symud y person o'r swydd o dan reoliad 10(3) neu (7); neu
- (b) p'un a yw'r person wedi ei ddatgymhwysio rhag cael ei benodi o dan reoliad 15, neu p'un a oedd wedi ei ddatgymhwysio felly ar yr adeg y'i penodwyd.

(2) Bydd Gweinidogion Cymru'n hysbysu person a gafodd ei atal o dan baragraff (1) o'r penderfyniad i'w atal, a bydd y penderfyniad yn dod yn effeithiol pan ddaw'r cyfryw hysbysiad i law.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraffau (4) a (5), ni fydd cyfnod atal o swydd o dan baragraff (1) yn fwy na chwe mis.

(4) Caiff Gweinidogion Cymru adolygu ataliad ar unrhyw adeg a byddant yn adolygu ataliad ar ôl tri mis os gofynnir iddynt wneud hynny gan y sawl a gafodd ei atal.

(5) Pan fyddant yn adolygu ataliad, caiff Gweinidogion Cymru—

- (a) dirymu'r ataliad, ac yn y cyfryw achos bydd yr ataliad yn peidio â bod yn effeithiol; neu

tenure of office, if any, will be terminated and that person will cease to act as chair or non-executive director.

(6) A person appointed as chair or non-executive director of the Trust must immediately notify the Trust if that person becomes disqualified for appointment under regulation 15.

(7) If it appears to the Welsh Ministers that the chair or non-executive director of the Trust has failed to comply with regulation 24 (disclosure etc on account of pecuniary interest) they may immediately terminate that person's tenure of office.

(8) Where any one of the non-executive directors referred to respectively in—

- (a) paragraph (c) of regulation 5(1) cease to be a member or employee of the voluntary organisation in Wales;
- (b) paragraph (d) of regulation 5(1) cease to be an officer of the trade union or employee representative body

the Welsh Ministers will terminate his or her appointment as non-executive director.

#### **Suspension of chair and non-executive directors**

**11.—(1)** The Welsh Ministers may suspend an appointee from performing the appointee's functions as chair or director while the Welsh Ministers consider whether—

- (a) to remove the person from office under regulation 10(3) or (7); or
- (b) the person is disqualified for appointment under regulation 15, or was so disqualified at the time of appointment.

(2) The Welsh Ministers will notify a person suspended under paragraph (1) of the decision to suspend, and the decision will take effect upon receipt of such notification.

(3) Subject to paragraphs (4) and (5), a period of suspension under paragraph (1) will not exceed six months.

(4) The Welsh Ministers may at any time review a suspension and will review a suspension after three months if so requested in writing by the person who has been suspended.

(5) On reviewing a suspension, the Welsh Ministers may—

- (a) revoke the suspension, in which case it ceases to have effect; or



- (b) atal y penodai rhag cyflawni swyddogaethau'r penodai fel cadeirydd neu gyfarwyddwr am gyfnod o ddim mwy na chwe mis o'r dyddiad y daw'r cyfnod atal presennol i ben.

#### **Atal: effaith ar fwyafswm nifer y cyfarwyddwyr ac ar gyfarfodydd**

**12.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan gaiff penodai ei atal o dan reoliad 11.

(2) Os yw'r rheoliad hwn yn gymwys —

- (a) ystyr cyfeiriadau ym mharagraffau 2(2) a 3(5) o Atodlen 2 at nifer cyfan y cyfarwyddwyr yw nifer cyfan y cyfarwyddwyr heb gynnwys unrhyw gyfarwyddwyr sydd wedi eu hatal o dan reoliad 11;
- (b) ystyr cyfeiriadau ym mharagraff 2(3) o Atodlen 2 at gyfarwyddwr yw cyfeiriadau at gyfarwyddwr ac eithrio cyfarwyddwr sydd wedi ei atal o dan reoliad 11.

#### **Atal cadeirydd: penodi is-gadeirydd**

**13.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo cadeirydd yr Ymddiriedolaeth yn cael ei atal o dan reoliad 11.

(2) Os bydd is-gadeirydd wedi ei benodi o dan reoliad 18 (penodi is-gadeirydd), bydd y penodiad hwnnw'n peidio â bod yn effeithiol o'r adeg y caiff y cadeirydd ei atal.

(3) At ddiben galluogi trafodion yr Ymddiriedolaeth i gael eu cynnal yn absenoldeb y cadeirydd, caiff Gweinidogion Cymru benodi cyfarwyddwr anweithredol i'r Ymddiriedolaeth i fod yn is-gadeirydd.

(4) Rhaid i benodiad is-gadeirydd o dan baragraff (3) fod am y cyfryw gyfnod, nad yw'n fwy na'r byrraf o'r canlynol—

- (a) cyfnod atal y cadeirydd; a
- (b) gweddill tymor y cyfarwyddwr anweithredol yn gyfarwyddwr i'r Ymddiriedolaeth,

ag y byddo Gweinidogion Cymru'n ei bennu wrth wneud y penodiad.

(5) Pan fo'r cyfnod y mae person wedi ei benodi i'w weithio yn swydd is-gadeirydd yn dod i ben, caiff Gweinidogion Cymru ailbenodi'r person, neu benodi cyfarwyddwr anweithredol arall, yn is-gadeirydd yn unol â pharagraff (3).

(6) Caiff unrhyw berson a benodwyd o dan baragraff (3) ymddiswyddo o swydd is-gadeirydd ar unrhyw adeg drwy gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i Weinidogion Cymru.

(7) Caiff Gweinidogion Cymru derfynu penodiad person i swydd is-gadeirydd o dan baragraff (3) os yw

- (b) suspend the appointee from performing the appointee's functions as chair or director for a period of not more than six months from the expiry of the current period of suspension.

#### **Suspension: effect on maximum number of directors and on meetings**

**12.**—(1) This regulation applies where an appointee is suspended under regulation 11.

(2) Where this regulation applies —

- (a) references in paragraphs 2(2) and 3(5) of Schedule 2 to the whole number of directors mean the whole number of directors excluding any directors who are suspended under regulation 11;
- (b) references in paragraph 2(3) of Schedule 2 to a director means a director other than a director who is suspended under regulation 11.

#### **Suspension of chair: appointment of vice-chair**

**13.**—(1) This regulation applies where the chair of the Trust is suspended under regulation 11.

(2) If a vice-chair has been appointed under regulation 18 (appointment of vice-chair), that appointment ceases to have effect from the time that the chair is suspended.

(3) The Welsh Ministers may, for the purpose of enabling the proceedings of the Trust to be conducted in the absence of the chair, appoint a non-executive director of the Trust to be vice-chair.

(4) The appointment of a vice-chair under paragraph (3) must be for such a period, not exceeding the shorter of—

- (a) the period for which the chair is suspended; and
- (b) the remainder of the non-executive director's term as a director of the Trust,

as the Welsh Ministers may specify on making the appointment.

(5) When the period for which a person is appointed as vice-chair expires, the Welsh Ministers may re-appoint the person, or appoint another non-executive director, as vice-chair in accordance with paragraph (3).

(6) Any person appointed under paragraph (3) may at any time resign from the office of vice-chair by giving notice in writing to the Welsh Ministers.

(7) The Welsh Ministers may terminate a person's appointment as vice-chair under paragraph (3) if the

Gweinidogion Cymru o'r farn y byddai'n llesol i fuddiannau'r Ymddiriedolaeth fod cyfarwyddwr anweithredol arall i'r Ymddiriedolaeth yn cael ei wneud yn is-gadeirydd.

(8) Os—

- (a) bydd person yn ymddiswyddo o swydd is-gadeirydd o dan baragraff (6); neu
- (b) bydd Gweinidogion Cymru'n terfynu penodiad person i swydd is-gadeirydd o dan baragraff (7),

caiff Gweinidogion Cymru benodi cyfarwyddwr anweithredol arall yn is-gadeirydd yn unol â pharagraff (3).

### **Cymhwystra ar gyfer ailbenodi**

**14.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff 3 a rheoliad 16 bydd cadeirydd yr Ymddiriedolaeth neu gyfarwyddwr anweithredol iddi yn gymwys i'w ailbenodi ar ddiwedd cyfnod ei ddeiliadaeth swydd.

(2) Bydd cyfarwyddwr gweithredol i'r Ymddiriedolaeth a benodwyd o dan reoliad 4(3) ac y mae rheoliad 6 yn gymwys iddo yn gymwys i'w ailbenodi ar ddiwedd cyfnod ei ddeiliadaeth swydd.

(3) Ni chaiff person ddal swydd cyfarwyddwr anweithredol am gyfanswm cyfnod o fwy nag wyth mlynedd.

### **Datgymhwyso rhag penodi cadeirydd a chyfarwyddwyr anweithredol**

**15.**—(1) Yn ddarostyngedig i reoliad 16 datgymhwysir person rhag cael ei benodi'n gadeirydd yr Ymddiriedolaeth neu'n gyfarwyddwr anweithredol iddi—

- (a) os yw'r person hwnnw o fewn y pum mlynedd flaenorol wedi ei gollfarnu yn y Deyrnas Unedig, unrhyw un o Ynsoedd y Sianel neu ar Ynys Manaw o unrhyw dramgwydd a bod dedfryd o garchar (p'un ai wedi ei gohirio ai peidio) wedi ei phasio arno am gyfnod o ddim llai na thri mis heb yr opsiwn o ddirwy; neu
- (b) os yw'r person hwnnw'n ddarostyngedig i orchymyn cyfyngiadau methdalau neu orchymyn cyfyngiadau methdalau dros dro neu os bydd wedi gwneud compownd neu drefniant gyda chredydwy; neu
- (c) os cafodd y person hwnnw ei ddiswyddo, ac eithrio oherwydd colli swyddi, o unrhyw gyflogaeth am dâl gyda chorff gwasanaeth iechyd; neu
- (ch) os yw'r person hwnnw'n berson y mae ei ddeiliadaeth swydd fel cadeirydd corff gwasanaeth iechyd, neu fel aelod ohono, neu fel cyfarwyddwr neu lywodraethwr iddo wedi ei therfynu oherwydd nad yw ei benodiad yn llesol i fuddiannau'r gwasanaeth Iechyd neu'r

Welsh Ministers are of the opinion that it would be in the best interests of the Trust for another non-executive director of the Trust to be vice-chair.

(8) If—

- (a) a person resigns from the office of vice-chair under paragraph (6); or
- (b) the Welsh Ministers terminate a person's appointment as vice-chair under paragraph (7),

the Welsh Ministers may appoint another non-executive director as vice-chair in accordance with paragraph (3).

### **Eligibility for reappointment**

**14.**—(1) Subject to paragraph 3 and regulation 15 the chair or non-executive director of the Trust will, on the termination of the period of his or her tenure of office, be eligible for reappointment.

(2) An executive director of the Trust appointed under regulation 4(3) to whom regulation 6 applies will on the termination of the period of his or her tenure of office be eligible for reappointment.

(3) A person may not hold office as non-executive director for a total period of more than eight years.

### **Disqualification for appointment of chair and non-executive directors**

**15.**—(1) Subject to regulation 16 a person is disqualified for appointment as the chair or non-executive director of the Trust if—

- (a) that person has within the preceding five years been convicted in the United Kingdom, any of the Channel Islands or the Isle of Man of any offence and has had passed on him or her a sentence of imprisonment (whether suspended or not) for a period of not less than three months without the option of a fine; or
- (b) that person is the subject of a bankruptcy restrictions order or an interim order or has made a composition or arrangement with creditors; or
- (c) that person has been dismissed, otherwise than by reason of redundancy, from any paid employment with a health service body; or
- (d) that person is a person whose tenure of office as the chair, member or director or governor of a health service body has been terminated because his or her appointment is not in the interests of the health service or the health service body in question, for non-attendance at

corff gwasanaeth iechyd dan sylw, am beidio â mynychu cyfarfodydd neu am beidio â datgelu buddiant ariannol; neu

- (d) os yw'r person hwnnw'n gadeirydd corff gwasanaeth iechyd ac eithrio ymddiriedolaeth sefydledig GIG, neu'n aelod ohono, neu'n gyfarwyddwr neu gyflogai iddo; neu
- (dd) os yw'r person hwnnw'n gadeirydd ymddiriedolaeth sefydledig GIG neu'n gyfarwyddwr neu gyflogai iddi; neu
- (e) os y person hwnnw yw cadeirydd Rheolydd Annibynnol Ymddiriedolaethau Sefydledig GIG neu os yw'n aelod arall ohono.

(2) At ddibenion paragraff (1)(a), bernir mai'r dyddiad collfarnu yw'r dyddiad y mae'r cyfnod arferol a ganiateir ar gyfer gwneud apêl neu gais ynghylch y gollfarn yn dod i ben neu, os gwneir apêl neu gais o'r fath, y dyddiad y penderfynir yn derfynol ar yr apêl neu'r cais neu'r dyddiad y rhoddir y gorau iddi neu iddo, neu'r dyddiad y metha'r apêl neu'r cais oherwydd na chaiff ei herlyn neu ei erlyn.

(3) At ddibenion paragraff (1)(c), ni chaiff person ei drin fel pe bai wedi bod mewn cyflogaeth am dâl dim ond oherwydd ei fod yn gadeirydd, yn aelod neu'n gyfarwyddwr neu, yn achos ymddiriedolaeth sefydledig GIG, oherwydd ei fod yn gadeirydd y corff gwasanaeth iechyd dan sylw, neu'n llywodraethwr neu gyfarwyddwr anweithredol iddo.

(4) Ni fydd person yn cael ei ddatgymhwyso gan baragraff (1)(d) rhag bod yn gadeirydd yr Ymddiriedolaeth neu'n gyfarwyddwr anweithredol iddi yn ystod y cyfnod rhwng y dyddiad sefydlu a'r dyddiad gweithredol yn rhinwedd bod yn gadeirydd ymddiriedolaeth GIG arall neu'n gyfarwyddwr anweithredol iddi.

### Diwedd datgymhwysiad

**16.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), os yw person yn cael ei ddatgymhwyso o dan reoliad 15(1)(c) (cyflogeion a ddiswyddir) caiff y person hwnnw, ar ôl i gyfnod nad yw'n llai na dwy flynedd ddod i ben, wneud cais ysgrifenedig i Weinidogion Cymru i ddileu'r datgymhwysiad a chaiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo y bydd y datgymhwysiad yn dod i ben.

(2) Os bydd Gweinidogion Cymru'n gwrthod cais i ddileu datgymhwysiad ni chaiff y person hwnnw wneud cais pellach hyd oni fydd cyfnod o ddwy flynedd ar ôl ddyddiad y cais wedi dod i ben.

(3) Os caiff person ei ddatgymhwyso o dan reoliad 15(1)(ch) (cadeiryddion a chyfarwyddwyr penodol y mae eu penodiadau wedi eu terfynu), bydd y datgymhwysiad yn dod i ben ar ddiwedd cyfnod o ddwy flynedd neu'r cyfryw gyfnod hwy ag y bydd Gweinidogion Cymru'n ei bennu pan fyddant yn terfynu ei gyfnod yn y swydd, ond caiff Gweinidogion Cymru, o fod cais yn cael ei wneud iddynt gan y person hwnnw, gwtogi'r cyfnod o ddatgymhwysiad.

meetings or for non-disclosure of a pecuniary interest; or

- (e) that person is a chair, member, director or employee of a health service body other than an NHS foundation trust; or
- (f) that person is a chair, director or employee of an NHS foundation trust; or
- (g) that person is the chair or another member of the Independent Regulator of NHS Foundation Trusts.

(2) For the purposes of paragraph (1)(a) the date of conviction is deemed to be the date on which the ordinary period allowed for making an appeal or application with respect to the conviction expires, or if such an appeal or application is made, the date on which the appeal or application is finally disposed of or abandoned or fails by reason of it not being prosecuted.

(3) For the purposes of paragraph (1)(c) a person will not be treated as having been in paid employment by reason only of his or her being chair, member or director or, in the case of an NHS foundation trust his or her being chair, governor, or non-executive director of, the health service body in question.

(4) A person will not be disqualified by paragraph (1)(e) from being the chair or a non-executive director of the Trust during the period between the date on which it is established and its operational date by virtue of being the chair or a non-executive director of another NHS trust.

### Cessation of disqualification

**16.**—(1) Subject to paragraph (2) where a person is disqualified under regulation 15(1)(c) (dismissed employees) that person may, after the expiry of a period of not less than two years, apply in writing to the Welsh Ministers to remove the disqualification and the Welsh Ministers may direct that the disqualification will cease.

(2) Where the Welsh Ministers refuse an application to remove a disqualification no further application may be made by that person until the expiration of two years from the date of the application.

(3) Where a person is disqualified under regulation 15(1)(d) (certain chairmen and directors whose appointments have been terminated), the disqualification will cease on the expiry of a period of two years or such longer period as the Welsh Ministers specify when terminating his or her period of office but the Welsh Ministers may on application being made to him or her by that person, reduce the period of disqualification.

### RHAN III

#### Cyfansoddiad a Thrafodion

##### Penodi is-gadeirydd

17.—(1) At ddiben galluogi trafodion yr Ymddiriedolaeth i gael eu cynnal yn absenoldeb y cadeirydd, caiff cyfarwyddwyr yr Ymddiriedolaeth benodi cyfarwyddwr anweithredol o'u plith i fod yn is-gadeirydd am y cyfryw gyfnod, nad yw'n hwy na gweddill ei dymor fel cyfarwyddwr anweithredol i'r Ymddiriedolaeth, ag y cânt ei bennu wrth ei benodi.

(2) Caiff unrhyw gyfarwyddwr anweithredol a benodir felly ymddiswyddo ar unrhyw adeg o swydd is-gadeirydd drwy gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i gadeirydd yr Ymddiriedolaeth a, phan ddigwydd hynny, caiff cyfarwyddwyr yr Ymddiriedolaeth benodi cyfarwyddwr anweithredol arall yn is-gadeirydd yn unol â pharagraff (1).

(3) Nid yw'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo rheoliad 13 yn gymwys.

##### Pwerau is-gadeirydd

18. Os yw cadeirydd yr Ymddiriedolaeth wedi marw neu os nad yw mwyach yn ddeiliad y swydd am ryw reswm arall neu os nad yw wedi gallu cyflawni ei ddyletswyddau cadeirydd oherwydd salwch, oherwydd ei fod yn absennol o Gymru a Lloegr, oherwydd ei atal o dan reoliad 11 neu am unrhyw achos arall, bernir bod cyfeiriadau at y cadeirydd yn Atodlen 2 yn cynnwys cyfeiriadau at yr is-gadeirydd, tra nad oes cadeirydd neu tra na fydd y cadeirydd yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau.

##### Penodi pwyllgorau ac is-bwyllgorau

19.—(1) Yn ddarostyngedig i reoliadau 21 a 22 caiff yr Ymddiriedolaeth benodi pwyllgorau i'r Ymddiriedolaeth sydd wedi eu cyfansoddi'n gyfan gwbl neu'n rhannol o gyfarwyddwyr neu'n gyfan gwbl neu'n rhannol o bersonau nad ydynt yn gyfarwyddwyr.

(2) Caiff pwyllgor a benodir o dan y rheoliad hwn benodi is-bwyllgorau sydd wedi eu cyfansoddi'n gyfan gwbl neu'n rhannol o aelodau o'r pwyllgor (p'un a ydynt yn cynnwys cyfarwyddwyr yr ymddiriedolaeth ai peidio) neu'n gyfan gwbl o bersonau nad ydynt yn aelodau o'r pwyllgor (p'un a ydynt yn cynnwys cyfarwyddwyr i'r ymddiriedolaeth ai peidio).

##### Trefniadau ar gyfer arfer swyddogaethau

20. Yn ddarostyngedig i reoliadau 21 a 22 caiff yr Ymddiriedolaeth wneud trefniadau ar gyfer arfer, ar ran yr Ymddiriedolaeth, unrhyw un neu rai o'i swyddogaethau gan bwyllgor neu is-bwyllgor a benodwyd yn rhinwedd rheoliad 19 yn ddarostyngedig i'r cyfryw gyfyngiadau ac amodau ag y gwêl yr Ymddiriedolaeth yn dda eu gosod.

### PART III

#### Constitution and Proceedings

##### Appointment of vice-chair

17.—(1) For the purpose of enabling the proceedings of the Trust to be conducted in the absence of the chair, the directors of the Trust may appoint a non-executive director from amongst them to be vice-chair for such a period, not exceeding the remainder of his or her term as non-executive director of the Trust, as they may specify on appointing him or her.

(2) Any non-executive director so elected may at any time resign from the office of vice-chair by giving notice in writing to the chair and the directors of the Trust may thereupon appoint another non-executive director as vice-chair in accordance with paragraph (1).

(3) This regulation does not apply when regulation 13 applies.

##### Powers of vice-chair

18. Where the chair of the Trust has died or has otherwise ceased to hold office or where he or she has been unable to perform his or her duties as chair owing to illness, absence from England and Wales, suspension under regulation 11 or any other cause, references to the chair in Schedule 2 will, so long as there is no chair, or the chair is unable to perform his or her duties, be taken to include references to the vice-chair.

##### Appointment of committees and sub-committees

19.—(1) Subject to regulations 21 and 22 the Trust may appoint committees of the Trust consisting wholly or partly of directors or wholly of persons who are not directors.

(2) A committee appointed under this regulation may appoint sub-committees consisting wholly or partly of members of the committee (whether or not they include the directors of the trust) or wholly of persons who are not members of the committee (whether or not they include the directors of the trust).

##### Arrangements for the exercise of functions

20. Subject to regulations 21 and 22 the Trust may make arrangements for the exercise, on behalf of the Trust, of any of its functions by a committee or sub-committee appointed by virtue of regulation 19 subject to such restrictions and conditions as the Trust thinks fit.

### **Pwyllgor ar gyfer penodi prif swyddog yn gyfarwyddwr**

21. Bydd yr Ymddiriedolaeth yn penodi pwyllgor y bydd cadeirydd yr ymddiriedolaeth a chyfarwyddwyr anweithredol i'r ymddiriedolaeth yr aelodau ohono, a phenodi'r prif swyddog yn gyfarwyddwr i'r Ymddiriedolaeth fydd ei swyddogaeth.

### **Pwyllgor ar gyfer penodi cyfarwyddwyr gweithredol ac eithrio'r prif swyddog**

22. Bydd yr Ymddiriedolaeth yn penodi pwyllgor y bydd y cadeirydd, y cyfarwyddwyr anweithredol a'r prif swyddog yr aelodau ohono, a phenodi'r cyfarwyddwyr gweithredol ac eithrio'r prif swyddog fydd ei swyddogaeth.

### **Cyfarfodydd a Thrafodion**

23.—(1) Rhaid cynnal cyfarfodydd a thrafodion yr Ymddiriedolaeth yn unol â'r rheolau a nodir yn Atodlen 2 ac â rheolau sefydlog a wnaed o dan baragraff (2).

(2) Yn ddarostyngedig i Atodlen 2 ac i reoliad 24 rhaid i'r Ymddiriedolaeth wneud rheolau sefydlog, y caiff eu hamrywio neu eu dirymu, ar gyfer rheoleiddio ei thrafodion a'i busnes a chaniateir gwneud darpariaeth yn y cyfryw reolau sefydlog ar gyfer eu hatal.

(3) Caiff yr Ymddiriedolaeth wneud, amrywio a dirymu rheolau sefydlog sy'n ymwneud â chworwm, trafodion a man cyfarfod pwyllgor neu is-bwyllgor ond, yn ddarostyngedig i reoliad 24 ac i unrhyw reolau sefydlog o'r fath, y cyfryw ag y byddo'r pwyllgor neu'r is-bwyllgor yn penderfynu amynt fydd y cworwm, y trafodion a'r man cyfarfod.

(4) Ni fydd trafodion yr Ymddiriedolaeth yn annyls oherwydd bod unrhyw swydd aelod yn wag neu oherwydd unrhyw ddiffyg ym mhenodiad cyfarwyddwr.

### **Anallu cyfarwyddwyr i gyfrannu at drafodion oherwydd buddiant ariannol**

24.—(1) Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau canlynol y rheoliad hwn, os oes gan gyfarwyddwr i'r Ymddiriedolaeth unrhyw fuddiant ariannol, boed uniongyrchol neu anuniongyrchol, mewn unrhyw contract, contract arfaethedig neu fater arall a'i fod yn bresennol yn un o gyfarfodydd yr Ymddiriedolaeth pan roddir ystyriaeth i'r contract neu fater arall, rhaid i'r cyfarwyddwr hwnnw ddatgelu'r ffaith yn y cyfarfod ac mor fuan â phosibl ar ôl i'r cyfarfod ddechrau, a rhaid iddo beidio â chymryd rhan yn yr ystyriaeth a roddir i'r contract neu'r mater arall a'r drafodaeth arno, neu bleidleisio ar unrhyw gwestiwn mewn cysylltiad ag ef.

(2) Caiff Gweinidogion Cymru, yn ddarostyngedig i'r cyfryw amodau ag y byddo Gweinidogion Cymru'n

### **Committee for appointing chief officer as director**

21. The Trust will appoint a committee whose members will be the chair and non-executive directors of the trust whose function will be to appoint the chief officer as a director of the Trust.

### **Committee for appointing executive directors other than chief officer**

22. The Trust will appoint a committee whose members will be the chair, the non-executive directors and the chief officer whose function will be to appoint the executive directors other than the chief officer .

### **Meetings and Proceedings**

23.—(1) The meetings and proceedings of the Trust must be conducted in accordance with the rules set out in Schedule 2 and with standing orders made under paragraph (2).

(2) Subject to Schedule 2 and to regulation 24 the Trust must make and may vary or revoke standing orders for the regulation of its proceedings and business and provision may be made in such standing orders for the suspension of them.

(3) The Trust may make, vary and revoke standing orders relating to the quorum, proceedings and place of meetings of a committee or sub-committee but, subject to regulation 24 and to any such standing orders, the quorum, proceedings and place of meeting will be such as the committee or sub-committee may determine.

(4) The proceedings of the Trust will not be invalidated by any vacancy in its membership or by any defect in a director's appointment.

### **Disability of directors in proceedings on account of pecuniary interest**

24.—(1) Subject to the following provisions of this regulation, if a director of the Trust has any pecuniary interest, direct or indirect, in any contract, proposed contract or other matter and is present at a meeting of the Trust at which the contract or other matter is the subject of consideration, that director must at the meeting and as soon as practicable after its commencement disclose the fact and must not take part in the consideration and discussion of the contract or other matter or vote on any question with respect to it.

(2) The Welsh Ministers may, subject to such conditions as they may think fit to impose, remove any

gweld yn dda eu gosod, ddileu unrhyw anallu a osodir gan y rheoliad hwn, mewn unrhyw achos lle y mae'n ymddangos iddynt hwy y byddai er budd y gwasanaeth iechyd i'r anallu gael ei ddileu.

(3) Caiff yr Ymddiriedolaeth, drwy gyfrwng rheolau sefydlog a wnaed o dan reoliad 23, ddarparu ar gyfer gwahardd cyfarwyddwr rhag bod yn bresennol mewn cyfarfod o'r ymddiriedolaeth tra bydd unrhyw gontract, contract arfaethedig, neu fater arall y mae gan y cyfarwyddwr fuddiant ariannol ynddo, boed uniongyrchol neu anuniongyrchol, yn cael ei ystyried.

(4) Ni chaniateir trin unrhyw gydnabyddiaeth, iawndal nei lwfansau sy'n daladwy i gyfarwyddwr yn rhinwedd paragraff 11 o Atodlen 3 i'r Ddeddf fel buddiant ariannol at ddiben y rheoliad hwn.

(5) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2) a (6), rhaid i gyfarwyddwr gael ei drin at ddibenion y rheoliad hwn fel pe bai ganddo'n anuniongyrchol fuddiant ariannol mewn contract, contract arfaethedig neu fater arall—

- (a) os bod y cyfarwyddwr hwnnw, neu'r sawl a enwebir ganddo, yn gyfarwyddwr cwmni neu gorff arall, nad yw'n gorff cyhoeddus, y gwnaed y contract gydag ef neu yr arfaethir gwneud contract gydag ef neu y mae ganddo fuddiant ariannol yn y mater arall sy'n cael ei ystyried; neu
- (b) os bod y cyfarwyddwr hwnnw'n bartner i, neu'n cael ei gyflogi gan, berson y gwnaed y contract gydag ef neu yr arfaethir gwneud y contract gydag ef, neu y mae ganddo fuddiant ariannol uniongyrchol yn y mater arall sy'n cael ei ystyried ac os bernir, yn achos personau priod neu bartneriaid sifil, fod buddiant un o'r pâr priod neu un o'r ddau bartner sifil at ddiben y rheoliad hwn hefyd yn fuddiant i'r llall.

(6) Ni fydd cyfarwyddwr yn cael ei drin fel pe bai ganddo fuddiant ariannol mewn unrhyw gontract, contract arfaethedig neu fater arall dim ond —

- (a) oherwydd bod y cyfarwyddwr hwnnw'n aelod o gwmni neu gorff arall os nad oes ganddo fuddiant llesiannol mewn unrhyw warannau sy'n perthyn i'r cwmni hwnnw neu i gorff arall;
- (b) o achos buddiant mewn unrhyw gwmni, corff neu berson y mae'n gysylltiedig ag ef fel a grybwyllir ym mharagraff (5) sydd mor bell neu ddi-nod fel na ellir yn rhesymol ystyried ei fod yn debygol o ddylanwadu ar gyfarwyddwr wrth iddo ystyried neu drafod unrhyw gwestiwn mewn cysylltiad â'r contract neu'r mater hwnnw neu wrth iddo bleidleisio arno.

(7) Os digwydd y canlynol—

- (a) bod gan gyfarwyddwr fuddiant ariannol anuniongyrchol mewn contract neu fater arall dim ond oherwydd bod ganddo fuddiant llesiannol yng ngwarannau cwmni neu gorff arall; a

disability imposed by this regulation, in any case in which it appears to them in the interests of the health service that the disability should be removed.

(3) The Trust may, by standing orders made under regulation 23 provide for the exclusion of a director from a meeting of the trust while any contract, proposed contract, or other matter in which he or she has a pecuniary interest, direct or indirect, is under consideration.

(4) Any remuneration, compensation or allowances payable to a director by virtue of paragraph 11 of Schedule 3 to the Act may not be treated as a pecuniary interest for the purpose of this regulation.

(5) Subject to paragraphs (2) and (6), a director must be treated for the purposes of this regulation as having indirectly a pecuniary interest in a contract, proposed contract or other matter if—

- (a) that director, or a nominee of his or hers, is a director of a company or other body, not being a public body, with which the contract was made or is proposed to be made or which has a direct pecuniary interest in the other matter under consideration; or
- (b) that director is a partner of, or is in the employment of, a person with whom the contract was made or is proposed to be made or who has a direct pecuniary interest in the other matter under consideration and, in the case of married persons or civil partners, the interest of one spouse or civil partner is deemed for the purpose of this regulation to be also an interest of the other.

(6) A director will not be treated as having a pecuniary interest in any contract, proposed contract or other matter by reason only—

- (a) that director's membership of a company or other body if he or she has no beneficial interest in any securities of that company or other body;
- (b) of an interest in any company, body or person with which he or she is connected as mentioned in paragraph (5) which is so remote or insignificant that it cannot reasonably be regarded as likely to influence a director in the consideration or discussion of or in voting on, any question with respect to that contract or matter.

(7) Where a director—

- (a) has an indirect pecuniary interest in a contract or other matter by reason only of a beneficial interest in securities of a company or other body; and

- (b) nad yw cyfanswm gwerth enwol y gwarannau hynny'n fwy na £5,000 neu ganfed ran o gyfanswm gwerth enwol cyfalaf cyfranddaliadau a ddyroddwyd gan y cwmni neu'r corff, pa un bynnag yw'r lleiaf; ac
- (c) bod y cyfalaf cyfranddaliadau yn perthyn i fwy nag un dosbarth, a bod cyfanswm gwerth enwol cyfranddaliadau unrhyw un dosbarth y mae ganddo fuddiant llesiannol ynddo heb fod yn fwy na chanfed ran o gyfanswm cyfalaf cyfranddaliadau a ddyroddwyd yn y dosbarth hwnnw,

ni fydd y rheoliad hwn yn gwahardd y cyfarwyddwr hwnnw rhag cymryd rhan mewn ystyriaeth o'r contract neu fater arall neu drafodaeth arno neu rhag pleidleisio ar unrhyw gwestiwn mewn cysylltiad ag ef heb ragfarnu fodd bynnag ei ddyletswydd i ddatgelu ei fuddiant.

(8) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i bwyllgor neu is-bwyllgor i'r Ymddiriedolaeth fel y mae'n gymwys i'r Ymddiriedolaeth ac mae'n gymwys i unrhyw aelod o unrhyw bwyllgor neu is-bwyllgor o'r fath (p'un a yw'r person hwnnw hefyd yn gyfarwyddwr i'r ymddiriedolaeth ai peidio) fel y mae'n gymwys i gyfarwyddwr i'r Ymddiriedolaeth.

#### Darpariaeth drosiannol

25. Rhwng y dyddiad sefydlu a'r dyddiad gweithredol mae paragraff 3(5) o Atodlen 2 yn gymwys fel pe bai'n darllen—

"Ni chaniateir trafod unrhyw fusnes mewn cyfarfod o'r Ymddiriedolaeth onid yw'r Cadeirydd yn bresennol ynghyd ag un cyfarwyddwr anweithredol neu onid oes dau gyfarwyddwr anweithredol yn bresennol."

#### Diwygiadau canlyniadol

26.—(1) Yn rheoliad 1(2) o Reoliadau 1990 mewnosoder y diffiniad a ganlyn yn y man priodol—

"the Public Health Wales National Health Service Trust" means the NHS Trust established by the Public Health Wales National Health Service Trust (Establishment) Order 2009."

(2) Mewnosoder rheoliad ychwanegol yn Rheoliadau 1990 yn syth ar ôl rheoliad 1 o'r Rheoliadau hynny—

#### **"1A The Public Health Wales National Health Service Trust**

These Regulations do not apply to the Public Health Wales National Health Service Trust."

- (b) the total nominal value of those securities does not exceed £5,000 or one hundredth of the total nominal value of the issued share capital of the company or body, whichever is the less; and
- (c) if the share capital is of more than one class, the total nominal value of shares of any one class in which he or she has the beneficial interest does not exceed one hundredth of the total issued share capital of that class,

this regulation will not prohibit that director from taking part in consideration or discussion of the contract or other matter or from voting on any question in respect to it without prejudice however to his or her duty to disclose his or her interest.

(8) This regulation applies to a committee or sub-committee of the Trust as it applies to the Trust and applies to any member of any such committee or sub-committee (whether or not that person is also a director of the trust) as it applies to a director of the Trust.

#### Transitional Provision

25. Between the establishment date and the operational date paragraph 3(5) of Schedule 2 applies as if it read—

"No business may be transacted at a meeting of the Trust unless the chair and one non-executive director are present or two non-executive directors are present."

#### Consequential amendments

26.—(1) In regulation 1(2) of the 1990 Regulations insert the following definition in the appropriate place—

"the Public Health Wales National Health Service Trust" means the NHS trust established by the Public Health Wales National Health Service Trust (Establishment) Order 2009."

(2) Insert an additional regulation in the 1990 Regulations immediately after regulation 1 of those Regulations—

#### **"1A The Public Health Wales National Health Service Trust**

These Regulations do not apply to the Public Health Wales National Health Service Trust."

*Edwina Hart*

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau  
Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

Minister for Health and Social Services, one of the  
Welsh Ministers

9 Mehefin 2009

9 June 2009



## ATODLEN 1

### GWEITHDREFNAU AR GYFER PENODI'R CADEIRYDD A CHYFARWYDDWYR ANWEITHREDOL

Rheoliad 3(1)

1. Mae'r Atodlen hon yn gymwys i'r broses o ddewis a phenodi'r cadeirydd a chyfarwyddwyr anweithredol.

2. Bydd Gweinidogion Cymru'n sicrhau bod trefniadau priodol yn eu lle ar gyfer dewis a phenodi personau'n aelodau a bod y trefniadau hynny'n cymryd i ystyriaeth—

- (a) yr egwyddorion a osodir o bryd i'w gilydd gan y Comisiynydd Penodiadau Cyhoeddus ac yng Nghod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gyfer Penodiadau gan Weinidogion i Gyrrff Cyhoeddus;
- (b) y gofyniad am i'r broses o ddewis a phenodi fod yn agored a thryloyw; ac
- (c) y gofyniad am i'r broses o ddewis a phenodi gynnwys cystadleuaeth deg ac agored.

## ATODLEN 2

### Rheolau ynghylch Cyfarfodydd a Thrafodion yr Ymddiriedolaeth

Rheoliad 23(1)

1. Cynhelir cyfarfod cyntaf yr Ymddiriedolaeth ar y cyfryw ddiwrnod ac yn y cyfryw fan ag y caiff y cadeirydd ei bennu a'r cadeirydd fydd yn gyfrifol am gynnull y cyfarfod.

2.—(1) Caiff y cadeirydd alw cyfarfod o'r Ymddiriedolaeth ar unrhyw adeg.

(2) Os bydd y cadeirydd yn gwrthod galw cyfarfod ar ôl i gais i'r perwyl hwnnw, a lofnodwyd gan draean o leiaf o nifer cyfan yr aelodau, gael ei gyflwyno iddo, neu os nad yw'n galw cyfarfod o fewn saith niwrnod ar ôl i gais o'r fath gael ei gyflwyno iddo, ac yntau heb fod wedi gwrthod felly, rhaid i'r cyfryw draean neu fwy o aelodau alw cyfarfod yn ddiymdroi.

(3) Cyn pob cyfarfod o'r Ymddiriedolaeth, rhaid i hysbysiad o'r cyfarfod, yn nodi'r busnes y bwriedir ei drafod ynddo, ac wedi ei lofnodi gan y cadeirydd neu gan swyddog i'r Ymddiriedolaeth a awdurdodwyd gan y cadeirydd i lofnodi ar ei ran, gael ei ddanfôn i bob cyfarwyddwr neu ei anfon drwy'r post i breswylfa arferol y cyfryw gyfarwyddwr, fel ei fod ar gael i bob cyfarwyddwr ddeng niwrnod o leiaf cyn y cyfarfod.

(4) Ni fydd diffyg cyflwyno'r hysbysiad i unrhyw gyfarwyddwr yn effeithio ar ddilysrwydd cyfarfod.

## SCHEDULE 1

### PROCEDURES FOR APPOINTMENT OF THE CHAIR AND NON-EXECUTIVE DIRECTORS

Regulation 3(1)

1. This Schedule applies to the selection and appointment of the chair and non-executive directors.

2. The Welsh Ministers will ensure that appropriate arrangements are in place for the selection and appointment of persons as members and that those arrangements take into account —

- (a) the principles from time to time laid down by the Commissioner for Public Appointments and in the Welsh Minister's Code of Practice for Ministerial Appointments to Public Bodies;
- (b) the requirement that the selection and appointment be open and transparent; and
- (c) the requirement of fair and open competition in the selection and appointment.

## SCHEDULE 2

### Rules as to Meetings and Proceedings of the Trust

Regulation 23(1)

1. The first meeting of the Trust will be held on such day and at such place as may be fixed by the chair and he or she is responsible for convening the meeting.

2.—(1) The chair may call a meeting of the Trust at any time.

(2) If the chair refuses to call a meeting after a requisition for that purpose, signed by at least one third of the whole number of directors, has been presented to him or her or if, without so refusing, the chair does not call a meeting within seven days after such requisition has been presented to him or her, such one third or more members must immediately call a meeting.

(3) Before each meeting of the Trust, a notice of the meeting, specifying the business proposed to be transacted at it and signed by the chair, or by an officer of the Trust authorised by the chair to sign on his or her behalf, must be delivered to every director or sent by post to the usual place of residence of such director so as to be available to each director at least ten days before the meeting.

(4) Lack of service of the notice on any director does not affect the validity of a meeting.

(5) Yn achos cyfarfod sy'n cael ei alw gan gyfarwyddwyr yn niffyg y cadeirydd, rhaid i'r hysbysiad gael ei lofnodi gan y cyfarwyddwyr hynny ac ni chaiff unrhyw fusnes ei drafod yn y cyfarfod ac eithrio'r busnes a bennir yn yr hysbysiad.

3.—(1) Mewn unrhyw gyfarfod o'r Ymddiriedolaeth, y cadeirydd, os yw'n bresennol, fydd yn llywyddu.

(2) Os yw'r cadeirydd a'r is-gadeirydd (os o gwbl) yn absennol, bydd y cyfryw gyfarwyddwr anweithredol ag y byddo'r cyfarwyddwyr sy'n bresennol yn ei ddewis yn llywyddu.

(3) Rhaid i bob cwestiwn mewn cyfarfod gael ei benderfynu gan fwyafrif pleidleisiau'r cyfarwyddwyr sy'n bresennol ac sy'n pleidleisio ar y cwestiwn ac, os yw'r pleidleisiau'n gyfartal, bydd gan y person sy'n llywyddu ail bleidlais a fydd yn bleidlais fwrw.

(4) Rhaid cofnodi enwau'r cyfarwyddwyr sy'n bresennol yn y cyfarfod.

(5) Ni chaniateir trafod unrhyw fusnes mewn cyfarfod o'r Ymddiriedolaeth onid oes traean o nifer cyfan y cyfarwyddwyr yn bresennol gan gynnwys, ar neu ar ôl y dyddiad gweithredol, un cyfarwyddwr gweithredol a dau gyfarwyddwr anweithredol o leiaf.

(6) Rhaid llunio cofnodion trafodion cyfarfod a'u cyflwyno er mwyn cael cytundeb arnynt yn y cyfarfod nesaf sy'n dilyn, lle y cânt eu lofnodi gan y person sy'n llywyddu ynddo.

4. Os yw swydd cyfarwyddwr gweithredol yn cael ei rhannu rhwng mwy nag un person yn unol â rheoliad 7—

- (a) bydd gan y ddau berson yr hawl i fynychu cyfarfodydd yr Ymddiriedolaeth;
- (b) bydd y naill neu'r llall o'r personau hynny'n gymwys i bleidleisio os byddant yn cytuno â'i gilydd;
- (c) os byddant yn anghytuno â'i gilydd ni fydd pleidlais yn cael ei bwrw;
- (ch) caiff presenoldeb y naill berson neu'r llall neu'r naill berson a'r llall gyfrif fel un person at ddiben paragraff 3(5) o'r Atodlen hon.

(5) In the case of a meeting called by directors in default of the chair, the notice must be signed by those directors and no business may be transacted at the meeting other than that specified in the notice.

3.—(1) At any meeting of the Trust the chair, if present, will preside.

(2) If the chair and vice-chair (if any) are absent such non-executive director as the directors present may choose will preside.

(3) Every question at a meeting will be determined by a majority of the votes of the directors present voting on the question and, in the case of any equality of votes, the person presiding will have a second casting vote.

(4) The names of the directors present at the meeting must be recorded.

(5) No business may be transacted at a meeting of the Trust unless one third of the whole number of directors are present including on or after the operational date at least one executive director and two non-executive directors.

(6) The minutes of the proceedings of a meeting must be drawn up and submitted for agreement at the next ensuing meeting where they will be signed by the person presiding at it.

4. Where a post of executive director is shared by more than one person in pursuance of regulation 7—

- (a) both persons are entitled to attend meetings of the Trust;
- (b) either of those persons will be eligible to vote in the case of agreement between them;
- (c) in the case of disagreement between them no vote will be cast;
- (d) the presence of either or both of those persons may count as one person for the purpose of paragraph 3(5) of this Schedule.

---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

**2009 Rhif 1385 (Cy.141)**

**Y GWASANAETH IECHYD  
GWLADOL, CYMRU**

Rheoliadau Ymddiriedolaeth  
Gwasanaeth Iechyd Gwladol  
Iechyd Cyhoeddus Cymru  
(Aelodaeth a Gweithdrefn) 2009

---

WELSH STATUTORY  
INSTRUMENTS

---

**2009 No. 1385 (W.141)**

**NATIONAL HEALTH  
SERVICE, WALES**

The Public Health Wales National  
Health Service Trust (Membership  
and Procedure) Regulations  
2009

**£5.50**

W497/08/09

ON